# Cynllun Datblygu Ysgol Treganna

# 2025-26

# Crynodeb Cyhoeddedig

## Hunanwerthusiad Ysgol 2024-25: Trosolwg

### Cryfderau

**Addysgu a Dysgu**

• Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY, MATh ac o gefndiroedd incwm isel, yn gwneud cynnydd da yn unol â’u hanghenion ac yn datblygu medrau priodol i’w hoedran. Maent yn cofio dysgu blaenorol yn dda, yn meithrin gwybodaeth newydd ac yn dangos medrau datrys problemau da.

• Mae agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae ymddygiad yn dda iawn yn y dosbarth ac yn ystod egwyliau, gan gynnwys cefnogi eraill i ymddwyn yn dda.

• Mae trefniadau cryf i gefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion, gan weithio’n effeithiol gydag asiantaethau arbenigol a sefydliadau partner i oresgyn rhwystrau i ddysgu.

• Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar sgiliau darllen, gwrando, siarad, ysgrifennu, rhifedd a digidol o safon dda ac yn eu defnyddio’n annibynnol ar draws y cwricwlwm. Mae sgiliau corfforol a chreadigol hefyd yn datblygu’n dda.

• Mae’r ysgol yn cynnwys profiadau trawsgwricwlaidd a chyfleoedd i feithrin gwybodaeth am gymdeithas aml-ddiwylliannol, tegwch a pharch i bawb. Mae cyd-addoli yn hyrwyddo datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion.

• Mae’r cwricwlwm yn cynnig amrediad o brofiadau dysgu, wedi’u cynllunio’n dda, sy’n adeiladu ar sgiliau blaenorol ac yn ystyried llais y dysgwr. Mae dulliau cwestiynu a’r adborth gan athrawon yn cefnogi dealltwriaeth a gwella parhaus.

• Mae’r rhan fwyaf o staff yn modelu’r Gymraeg yn fwriadol ac yn cefnogi agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae staff cymorth yn cael eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi lles a dysgu disgyblion.

**Lles, Gofal ac Arweiniad**

• Mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn hyderus, gyda dealltwriaeth glir o wneud dewisiadau iach a sut i gadw’n ddiogel ar-lein. Mae diwylliant diogelu cryf, hyfforddiant staff eang ac ymatebion prydlon i bryderon.

• Mae presenoldeb yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda gwaith rhagweithiol i leihau absenoldeb heb ganiatâd. Mae digwyddiadau bwlio yn brin ac yn cael eu delio â nhw'n gadarn. Mae'r polisi 'Ymddygiad Cadarnhaol' yn cefnogi agweddau cadarnhaol at ddysgu.
• Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd eang i ddatblygu arweinyddiaeth disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ag asiantaethau allanol i gefnogi'r rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol. Mae ethos gofalgar, cynhwysol ac amrywiol wedi'i wreiddio yn ymarfer yr ysgol.

**Arwain a Gwella**
• Mae arweinwyr yn meithrin tîm staff ymroddedig, gyda modelu gwerthoedd proffesiynol cryf a threfniadau pontio cadarn. Mae llywodraethwyr yn cynnig cefnogaeth a her effeithiol ac yn cymryd rhan weithredol yn y broses gwella.
• Mae systemau hunanwerthuso cryf, gyda dadansoddiad data cyson a rhwydweithiau proffesiynol yn llywio gwelliannau. Mae ffocws ar ddatblygiad proffesiynol yn meithrin myfyrio a chydweithio i wella addysgu.
• Mae gweledigaeth glir ar gyfer y cwricwlwm, gyda lles a chynnydd disgyblion wrth wraidd y ddarpariaeth. Mae hyn wedi arwain at welliannau mesuradwy ym mhresenoldeb, lles ac ymddygiad.
• Mae systemau rheoli perfformiad effeithiol a dosbarthiad strategol o rolau a chyfrifoldebau, gyda pherthnasoedd cryf â rhieni, asiantaethau a'r gymuned, a rhannu arferion da ag ysgolion y clwstwr.

**Meysydd i'w datblygu**

1. Cynyddu'r cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm
2. Cysoni'r ffordd mae staff yn rhoi adborth i ddisgyblion
3. Parhau i feithrin a datblygu cynllunio a gweithdrefnau asesu a thracio cynnydd
4. Addysg Rhyw a Chydberthynas
5. Ysgrifennu estynedig
6. Dysgu cynhwysol
7. Cymreictod
8. Amrywiaeth

**Gwerthuso Cynllun Datblygu Ysgol 2024/2025**

| Blaenoriaeth | Gwerthusiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1 Arweinyddiaeth**<br>Adeiladu a datblygu arweinyddiaeth yr ysgol gan sicrhau bod arweinyddiaeth gref wedi'i hategu gan ddatblygiad proffesiynol, ymchwil a chydweithio effeithiol. | Mae sefydlu'r Fforwm Arweinyddiaeth a thimau hunanwerthuso wedi creu strwythur cadarn ar gyfer datblygu arweinwyr ar bob lefel, gan feithrin sgiliau strategol a defnydd effeithiol o ddata. Mae arweinwyr blwyddyn a chynnydd wedi cael eu sefydlu ac mae'r cyfathrebu clir wedi effeithio'n gadarnhaol ar safonau dysgu a lles disgyblion. Mae staff wedi ymgysylltu'n weithgar ag ymchwil ac arloesi, gan ddefnyddio technoleg, mentora cyfoedion ac addasu cynlluniau dysgu i well diwallu anghenion disgyblion. Mae'r rhwydwaith gwerthuso a gwella wedi hybu cydweithio proffesiynol a rhannu arferion da, tra bod llywodraethwyr wedi cymryd rhan fwy gweithredol |

| | |
|---|---|
| | mewn dadansoddi data ac arsylwi, gan gryfhau'r berthynas broffesiynol a chefnogi her adeiladol. |
| **Blaenoriaeth 2 Addysgu a Dysgu**<br>Mireinio ein dealltwriaeth a'n defnydd o egwyddorion addysgeg i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd. Cyfoethogi cyfleoedd dysgu trwy chwarae a'r defnydd o'r amgylchedd awyr agored. | Mae'r ysgol wedi sefydlu ardaloedd darnau rhydd cyson ar draws pob dosbarth, gan ddefnyddio adborth disgyblion a staff i wella'r ddarpariaeth ac annog annibyniaeth. Mae'r Continwwm Chwarae ar ddydd Gwener yn hyrwyddo myfyrio a chynllunio annibynnol. O ran y Pum Hyfedredd, gwelwyd cynnydd amlwg mewn sgiliau rhesymu mathemategol mewn cyd-destunau ymarferol, gyda chynllun clir i ehangu cyfleoedd trawsgwricwlaidd ym Medi 2025. Mae dull cyson o addysgu sillafu Saesneg bellach wedi'i ymgorffori, wedi'i gefnogi gan hyfforddiant, arsylwadau ysgolion eraill a phrosesau adolygu tymhorol, gan arwain at well cywirdeb a soffistigeidrwydd ieithyddol, yn ogystal â datblygiad proffesiynol staff mewn ffonig ac addysgu ymatebol. Mae dysgu awyr agored bellach yn rhan sefydlog o'r amserlen wythnosol. Mae gwersi wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â Meysydd Dysgu'r Cwricwlwm a mynediad rhwydd i ardaloedd allanol.Mae hyn wedi cryfhau trosglwyddiad dysgu i gyd-destunau ymarferol a datblygu sgiliau fel datrys problemau, cydweithio a chyfathrebu. |
| **Blaenoriaeth 3 Cwricwlwm**<br>Datblygu cwricwlwm ein hysgol ymhellach i sicrhau ei fod yn cyfoethogi gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau bob disgybl. Mireinio ein cwricwlwm i sicrhau bod yr egwyddorion cynnydd yn cefnogi cynllunio,dysgu ac addysgu. | Mae'r system tracio fewnol bellach wedi'i wreiddio'n llawn ym mhob dosbarth, gan alluogi staff i ddefnyddio data'n hyderus i nodi tueddiadau, cefnogi grwpiau penodol a thargedu ymyriadau, gyda chyfarfodydd cynnydd tymhorol a mewnbwn cadarnhaol gan lywodraethwyr yn cryfhau'r broses. Mae cynllun ACRh y clwstwr wedi'i gwblhau a hyfforddiant staff wedi sicrhau dealltwriaeth gyson, gyda chynnwys perthnasol yn cael ei ymgorffori'n ystyrlon yn y cwricwlwm a chynllun gweithredu clir ar gyfer Medi 2025. Mae'r cwricwlwm bellach yn cynnwys amrywiaeth a chynhwysiant yn systematig, gyda chyfeiriadau perthnasol at gymunedau LHDTQ+ a lleiafrifoedd ethnig. Mae disgyblion CA2 yn defnyddio'r Platfform Cynnydd i gofnodi gwaith, myfyrio a gosod targedau unigol, gan wella ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb personol, gyda chynllun i adolygu targedau'n dymhorol. Yn ogystal, mae cynllun ar y gweill i greu Cynllun Digidol ar Google Sites, gyda grid asesu ar gyfer cynllunio cyson. |
| **Blaenoriaeth 4 Lles, gofal cymorth ac arweiniad** | Mae staff wedi meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r Parthau Rheoleiddio ac wedi dechrau cynllunio a gweithredu'n fwriadus, a'r Llysgenhadon Lles wedi ei gyflwyno i'r ysgol gyfan. Mae'r Nyth wedi cryfhau partneriaethau â rhieni trwy weithdai wythnosol, y |

<table>
<tr><td>Mirienio ein agwedd ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol.<br>Cydweithio gyda'r gymuned ddysgu ehangach er mwyn diwallu anghenion y dysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd gydag ADY.</td><td colspan="2">Fforwm Rhieni a sesiynau galw heibio i rieni bob dydd Gwener. Mae'r Cwlwm Mentora wedi datblygu sgiliau cynorthwywyr addysgu trwy ganolbwyntio ar hyrwyddo annibyniaeth a lleihau gor-oruchwyliaeth, gan wella ymgysylltiad proffesiynol. Yn olaf, mae defnyddio meddalwedd Edukey wedi gwella cysondeb a phwrpas monitro disgyblion ADY, gyda chynllun i greu grid dysgwr-ganolog i sicrhau bod deilliannau clir yn cael eu pennu ac adolygu'n systematig.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Blaenoriaethau Cynllun Datblygu Ysgol 2025-2026</td></tr>
<tr><td>Blaenoriaeth 1 Rhifedd</td><td colspan="2">Ydyn ni'n achub ar gyfleoedd i'n dysgwyr gymhwyso a datblygu eu sgiliau rhifedd yn gynyddol ar draws y cwricwlwm?</td></tr>
<tr><td>Cerrig milltir mis Rhagfyr</td><td>Cerrig milltir mis Mawrth</td><td>Cerrig milltir mis Gorffennaf</td></tr>
<tr><td>Cynnal hyfforddiant i holl staff yr ysgol fel rhan o HMS mis Medi (Erwain Alaw), yn canolbwyntio ar y Pum Hyfedredd Mathemategol ac integreiddio rhifedd yn drawsgwricwlaidd.<br><br>Darparu hyfforddiant arbenigol i godi safonau addysgu rhifedd a meithrin dulliau effeithiol o fodelu rhesymu. (Hydref)<br><br>Arsylwadau dysgu gyda ffocws ar Rifedd. (Medi)<br><br>Cynnal dadansoddiad o ganlyniadau Asesiadau Personol Rhesymu Rhifedd Haf 2025, gan nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. (Hydref)<br><br>Dosbarthu ac adolygu holiadur staff i gasglu data gwaelodlin am hyder a gwybodaeth o ran addysgu rhifedd ar draws yr ysgol. (Medi)</td><td>Cwblhau trafodaethau cydweithredol â chymheiriaid ar draws y CLIP, gan rannu dulliau addysgeg, cynlluniau tymor a phrofiadau dysgu rhifedd. (Chwefror)<br><br>Gwerthuso tystiolaeth o sgiliau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm (Chwefror). Monitro perfformiad disgyblion/ craffu ar lyfrau, siarad â dysgwyr a thaith dysgu gyda ffocws ar Rifedd. (Mawrth)<br><br>Monitro cynllunio staff i sicrhau cynnwys trawsgwricwlaidd, ac annog defnyddio tasgau sy'n datblygu rhesymu rhifedd yn ymarferol (Mawrth)<br><br>Sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio'n briodol, gan ddatblygu</td><td>Bydd gan holl staff yr ysgol fynediad at bortffolio digidol sy'n cynnwys esiamplau o arfer gorau mewn addysgu rhifedd a rhesymu.<br><br>Gweithgareddau Cwlwm Dysgu gyda'r staff yn canolbwyntio ar rannu arfer dda Rhifedd. Arsylwi cydweithredol rhwng aelodau staff, gan ddathlu arferion llwyddiannus a thynnu sylw at feysydd i'w cysoni ar draws yr ysgol. (Hanner Tymor 1)<br><br>Mapio cyflawn o sgiliau, profiadau a gwybodaeth rhifedd wedi'i gwblhau a chydweithio gydag arweinwyr ysgol y CLIP.<br><br>Cynllunio cwricwlwm trawsgwricwlaidd yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i gymhwyso sgiliau rhifedd mewn cyd-destunau bywyd go iawn.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| Cychwyn trafodaethau proffesiynol rheolaidd rhwng staff i werthuso ansawdd addysgu rhifedd a sicrhau dulliau gwahaniaethu soffistigedig.<br><br>Cychwyn ar gynllunio gwersi gyda ffocws ar ymresymu a chymhwyso sgiliau rhifedd mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd. (Hanner tymor 1)<br><br>Prynu a dosbarthu adnoddau newydd i gefnogi datblygiad rhesymu rhifyddol ar bob lefel gallu. (Hanner tymor 2)<br>Sicrhau bod asesu ffurfiol ac anffurfiol yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol, gyda chanlyniadau’n llywio cynllunio ac addysgu.<br><br>Cychwyn cydweithio ag arweinwyr CLIP Rhifedd i sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer cynllunio, asesu a phontio. (Medi)<br><br>Paratoi ar gyfer systemau pontio effeithiol 6/7, gyda phwyslais ar sicrhau cysondeb mewn addysgu cyfrifo a rhesymu. (Hanner tymor 2)<br><br>Cyflwyniad i rieni ar flaenoriaethau 25/26. (Hydref) | sgiliau newydd drwy adeiladu ar wybodaeth flaenorol.<br><br>Asesu pa mor effeithiol yw’r strategaethau a roddwyd ar waith hyd yma, gan ddefnyddio data canol tymor i lywio camau nesaf (Mawrth)<br><br>Datblygu ymhellach y defnydd o’r Pum Hyfedredd mewn cynllunio tymor canolig, gan sicrhau dull cydlynol ar draws meysydd dysgu.<br><br>Cytuno ar egwyddorion pontio clwstwr 6/7, gan gynnwys dulliau addysgu cyfrifo a rhesymu er mwyn paratoi’n gyfartal ar gyfer symud i'r uwchradd. (Mawrth)<br><br>Parhau i godi ymwybyddiaeth staff o werth ac effeithiolrwydd dulliau addysgu rhifedd newydd, gan gynnwys hyfforddiant mewnol parhaus.<br><br>Cynnal Cwlwm Rhieni Mathemateg a Rhifedd gyda rhieni’r ysgol yn “Y Nyth” (Hanner Tymor 2). | Dadansoddi canlyniadau Asesiadau Personol Haf 2026 i werthuso effaith y strategaethau blynyddol a blaenoriaethu camau nesaf. (Hanner Tymor 2)<br><br>Adolygu’r holiadur staff i gasglu tystiolaeth o gynnydd a newid mewn hyder ac arferion addysgu, gan gymharu â data gwaelodlin. (Hanner Tymor 2)<br><br>Sicrhau bod pob dosbarth wedi darparu cyfleoedd i ymarfer adalw mathemategol, gan adeiladu ar ddysgu a chadw gwybodaeth.<br><br>Gorffen y flwyddyn gydag adolygiad strategol fel CLIP, gan adnabod llwyddiannau, heriau a chyfleoedd i symud ymlaen. (Mehefin)<br><br>Gwerthuso effaith y map trawsgwricwlaidd sy’n dangos sut mae sgiliau rhifedd wedi eu cymhwyso, gan gynnwys cyfranogiad disgyblion mewn themâu dilys. (Hanner Tymor 2)<br>Cytuno ar gamau gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan gynnwys amserlenni hyfforddiant a thargedau pontio 6/7. (Hanner Tymor 2)<br><br>Gwerthuso’r Cynllun Mathemateg a Rhifedd. Profiad hunanarfarnu staff cyfan i werthuso cryfderau a mannau i wella. (Hanner Tymor 2). |

| | | |
|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 2 Llythrennedd** | I ba raddau ydyn ni'n darparu cyfleoedd pwrpasol ynghyd â gosod disgwyliadau uchel, i alluogi disgyblion i uwch lefelu eu sgiliau ysgrifennu estynedig ac i saernio eu gwaith yn effeithiol ar gyfer cynulleidfaoedd a dibenion dilys? | |
| **Cerrig milltir mis Rhagfyr** | **Cerrig milltir mis Mawrth** | **Cerrig milltir mis Gorffennaf** |
| Cyflwyno Gwersi Sgiliau Iaith wedi'u targedu.<br>Rhoi ar waith gwersi iaith strwythuredig yn y dosbarth, yn canolbwyntio ar batrymau iaith, brawddegau model, gramadeg, treigladau a geirfa. Sicrhau bod y rhain yn rhan gynhenid o'r cynlluniau gwaith. (Hanner tymor 1)<br><br>Gweithredu Sesiynau Sglein.<br>Sefydlu sesiynau boreol 10-15 munud i atgyfnerthu sgiliau sillafu, treigladau, geirfa a strwythur brawddegau. (Medi)<br><br>Datblygu'r Broses Ysgrifennu Cam-wrth-Gam.<br>Sicrhau bod pob dosbarth yn dilyn proses ysgrifennu sy'n cynnwys trafod, cynllunio, drafftio, derbyn adborth, diwygio ac ail-ysgrifennu. (Hanner Tymor 1)<br><br>Defnyddio Modelau Ysgrifennu o Ansawdd.<br>Sicrhau bod modelau gan awduron, athrawon a disgyblion blaenorol yn cael eu defnyddio'n gyson. (Hanner Tymor 1) | Ail-werthuso gwersi Sgiliau Iaith.<br>Adolygu cynnwys a strwythur y gwersi iaith gan ddefnyddio adborth staff a disgyblion.(Chwefror)<br><br>Adolygu a Chryfhau Sesiynau Sglein.<br>Monitro effaith sesiynau boreol a diwygio canolbwynt y sesiynau yn ôl anghenion disgyblion. (Chwefror)<br><br>Monitro'r Broses Ysgrifennu Cam-wrth-Gam.<br>Arsylwi a chasglu tystiolaeth o'r broses ysgrifennu mewn dosbarthiadau i sicrhau cysondeb. (Chwefror)<br><br>Cynnal Ail Ddiwrnod Dychymyg Tymhorol.<br>Cynnal profiad dychmygol neu ymarferol newydd er mwyn tanio syniadau ysgrifennu tymhorol. (Mawrth)<br><br>Cynnal "Cyflwyno Campus" Tymhorol.<br>Disgyblion yn cyflwyno neu'n darllen gwaith i rieni, llywodraethwyr a | Gweithredu gwerthusiad ffurfiol o'r gwersi iaith strwythuredig a'r sesiynau sglein wythnosol a gyflwynwyd drwy gydol y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys casglu tystiolaeth o waith disgyblion cyn ac ar ôl sesiynau ac adborth gan athrawon a disgyblion ynghylch effaith y sesiynau ar sillafu, treigladau a brawddegau. (Mehefin)<br><br>Ailadrodd a Chryfhau'r Broses Ysgrifennu Cam-wrth-Gam. Rhoi cyfle i ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol gwblhau darn estynedig terfynol gan ddilyn pob cam o'r broses ysgrifennu, trafod a chynllunio, drafftio, derbyn adborth (gan athro neu gyfoedion), diwygio ac ail-ysgrifennu. (Mai).<br><br>Cynnal Diwrnod Dychymyg Terfynol.Trefnu Diwrnod Dychymyg terfynol fydd yn cynnig profiadau ffuglenol newydd (e.e. ymchwiliad troseddol, archwiliad gofodol, llys barn hanesyddol), gan weithio fel sbardun ar gyfer ysgrifennu creadigol o safon. (Mehefin) |

| | | |
|---|---|---|
| Cysylltu Profiadau Bywyd Go Iawn â Gwaith Ysgrifennu.<br>Cydlynu o leiaf un ymweliad thema neu brofiad ysbrydoledig i gefnogi ysgrifennu estynedig cyn diwedd y tymor.<br><br>Trefnu Diwrnod Dychymyg Tymor yr Hydref.<br>Cyflwyno'r Diwrnod Dychymyg cyntaf i danio dychymyg ac ysbrydoli ysgrifennu creadigol. (Tachwedd)<br><br>Sesiynau Gwerthuso Gwerthfawr yn Weithredol.<br>Sicrhau bod pob dosbarth yn cynnal sesiynau myfyrio ac adolygu dyddiol lle modelir ymateb i adborth.<br><br>Cynllunio a Mapio Ysgrifennu Estynedig ar draws y Cwricwlwm.<br>Gweithio gydag arweinwyr y meysydd i nodi a chynllunio cyfleoedd ysgrifennu estynedig mewn pob maes dysgu. (Hanner Tymor 2)<br><br>Campweithiau Campus – Cychwyn y Fenter.<br>Dechrau arddangos gwaith estynedig mewn mannau gweledol allweddol ar draws yr ysgol .(Hanner Tymor 2)<br><br>Hyfforddiant gan Menna Roberts.<br>Staff yn derbyn hyfforddiant ar asesu ac ymarfer gorau gan Menna Roberts er mwyn meithrin | chynulleidfaoedd go iawn. (Mawrth)<br><br>Sesiwn cymedroli arweiniol i gymharu gwaith â disgwyliadau cenedlaethol a meini prawf. (Chwefror)<br><br>Adolygu y Cynlluniau Cwricwlaidd.<br>Sicrhau bod y cyfleoedd ysgrifennu estynedig ar draws pob pwnc yn cael eu gweithredu'n effeithiol. (Mawrth)<br><br>Arddangos Campweithiau Newydd.<br>Gwerthuso effaith a sicrhau cynrychiolaeth eang a chynnydd amlwg. (Mawrth)<br><br>Monitro Canol Tymor.<br>Arweinwyr a'r grŵp Gwerthuso a Gwella yn cynnal sesiynau monitro ysgrifennu estynedig ar draws y dosbarthiadau ac yn darparu adborth. (Mawrth) | Cynnal Cyflwyno Campus Terfynol/Cynnal digwyddiad ffurfiol i ddathlu gwaith ysgrifennu disgyblion drwy gydol y flwyddyn, gan wahodd rhieni a gofalwyr llywodraethwy ac aelodau o'r gymuned leol.<br><br>Bydd disgyblion yn darllen eu gwaith, ei drafod, neu'n ei arddangos drwy fformatau creadigol (e.e. arddangosfeydd, perfformiadau, fideo). (Gorffennaf)<br><br>Cymedroli Terfynol gyda Staff.Trefnu sesiwn cymedroli terfynol lle bydd staff yn cymharu gwaith â meini prawf lefelu penodol ac enghreifftiau cenedlaethol. Trafod cynnydd yn erbyn gwaith mis Rhagfyr a mis Mawrth. (Mehefin)<br><br>Adolygu Cynnydd Unigol.Bydd athrawon dosbarth ac arweinwyr pwnc yn adolygu gwaith ysgrifennu pob disgybl ar draws y flwyddyn, gan adlewyrchu ansawdd cynnwys a syniadau, datblygiad iaith a geirfa, arddull a chywair, cywirdeb sillafu, treigladau a brawddegau. (Mehefin)<br><br>Mapio Gwelliannau i'r Flwyddyn Nesaf.<br>Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o adolygiadau, cymedroli ac adborth i lywio cynlluniau gwaith a pholisïau newydd. Nodi bylchau mewn sgiliau, diwygio gwersi iaith neu |

| | | |
|---|---|---|
| cysondeb ac arbenigedd. (Hydref) | | ganolbwyntio'n fanylach ar gamau'r broses ysgrifennu. (Gorffennaf)<br><br>Arolwg ac Adborth gan Ddisgyblion ac Athrawon.Casglu barn disgyblion ac athrawon drwy holiaduron neu gyfweliadau byr. Beth oedd yn heriol? Pa fentrau neu brofiadau oedd fwyaf ysbrydoledig?Bydd yr adborth yn cael ei ddefnyddio i siapio cynnwys, dulliau a strwythurau'r flwyddyn nesaf. (Gorffennaf) |
| **Blaenoriaeth 3 Cymreictod** | Ydyn ni'n cyfoethogi a gwella Cymreictod yn ddigon effeithiol ar draws yr ysgol er mwyn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn a chodi cyrhaeddiad disgyblion? | |
| **Cerrig milltir mis Rhagfyr** | **Cerrig milltir mis Mawrth** | **Cerrig milltir mis Gorffennaf** |
| Cyflwyno'r fenter "Cymraeg yn 1af" i'r holl staff/ disgyblion/rhieni a gweithredu'n syth.<br><br>Trefnu hyfforddiant cychwynnol i staff i egluro'r egwyddorion a disgwyliadau.<br><br>Mentoriaid Cymraeg o Flwyddyn 6.<br>Penodi disgyblion blwyddyn 6 fel mentoriaid i ymweld â dosbarthiadau iau i annog defnydd o'r Gymraeg mewn chwarae, gwaith grŵp a gweithgareddau hamddenol<br><br>Sicrhau dull cyson ar draws yr ysgol a chodi statws y Gymraeg ym | Cynnal holiadur i rieni a phlant ynghylch Cymreictod yn yr ysgol<br><br>Casglu safbwyntiau ar agweddau tuag at yr iaith, gweithgareddau diwylliannol a'r ethos Cymreig<br><br>Lleihau bylchau, addasu cynlluniau, a chryfhau'r berthynas iaith rhwng cartref ac ysgol<br>Cynnwys rhieni mewn adborth rheolaidd<br><br>Cynnal sesiynau adborth byw neu ffurflenni tymhorol i rieni ynghylch profiadau Cymraeg y teulu | Defnyddio'r "Continwwm Chwarae" i strwythuro iaith hamdden. Datblygu cyfres o ymarferion/ymadroddion sy'n addas ar gyfer chwarae rôl, amser rhydd a gwaith ymarferol. Helpu plant ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau naturiol a chyd-destunol<br><br>Nosweithiau agored i dderbyn a meithrin – canolbwyntio ar fodel addysg Gymraeg.Trefnu sesiynau penodol i rieni newydd gan egluro'r broses trochi, camau cynnydd, a manteision dwyieithrwydd. Codi hyder rhieni, datrys unrhyw bryderon, a chryfhau cefnogaeth iaith gartref o'r cychwyn cyntaf |

| | | |
|---|---|---|
| mhob agwedd o fywyd ysgol<br>Cyfleu neges gyson i bawb.<br><br>Datblygu slogan gweledol – e.e. “Cymraeg bob amser yn gyntaf” i’w ddefnyddio’n gyffredinol<br><br>Cryfhau ymwybyddiaeth a disgwyliadau iaith ymhlith disgyblion a staff.<br>Cymell trwy wobrwyo<br><br>Defnyddio sticeri a bandiau braich i gydnabod defnydd naturiol o’r Gymraeg<br><br>Meithrin agwedd bositif ac annog defnydd rheolaidd o’r iaith.<br>Cytundebau dosbarth cydweithredol.<br><br>Targedau defnydd iaith wedi’u datblygu gan y dosbarth a chytundeb gweledol wedi’i lofnodi<br><br>Cynyddu ymdeimlad o berchnogaeth ac ymgysylltiad disgyblion<br>Cysylltu gyda theuluoedd<br><br>Mentrau fel “gair ar y gât”, sesiynau i rieni, a rhannu geirfa i’w defnyddio adref.<br><br>Normaleiddio’r Gymraeg y tu hwnt i’r ysgol ac annog cefnogaeth gartref<br><br>Dosbarth Cudd – Tasg gyfrinachol i staff.<br>Trefnu tasgau iaith cudd i staff gyda’r nod o ysbrydoli a sbarduno defnydd creadigol. | Meithrin partneriaeth barhaus i gefnogi datblygiad ieithyddol disgyblion<br>Datblygu cysylltiadau gyda busnesau lleol sy’n defnyddio neu’n hyrwyddo’r Gymraeg<br><br>Gwahodd busnesau Cymraeg i’r ysgol i siarad gyda disgyblion neu arddangos gwasanaethau<br><br>Modelu defnydd y Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol ac economaidd go iawn.<br>Cynnig cymorth i fusnesau lleol sydd angen datblygu defnydd o’r Gymraeg.<br>Cydweithio â disgyblion i greu posteri, labeli neu eirfa ar gyfer busnesau lleol.<br><br>Annog cyfrifoldeb cymdeithasol ac ymgysylltu ystyrlon gyda’r gymuned.<br>Cysylltu ag Ysgol Uwchradd i feithrin parhad iaith.<br><br>Trefnu ymweliadau gan ddisgyblion hŷn i siarad am eu profiadau Cymraeg ac annog ysbrydoliaeth.<br><br>Dangos llwybr cadarnhaol ieithyddol a chodi dyheadau disgyblion iau.<br>Trefnu profiadau pontio Cymraeg gyda’r ysgol uwchradd. | Rhoi llwyfan i rieni rannu eu profiadau cadarnhaol.<br>Gwahodd rhieni presennol i siarad mewn nosweithiau agored am lwyddiannau plant a’u profiad o'r Gymraeg fel teulu.<br><br>Lleihau pryderon ymysg rhieni newydd, meithrin cymuned gefnogol a chadarn<br><br>Monitro effaith mentoriaid Cymraeg yn rheolaidd.<br>Defnyddio arsylwadau, cyfweliadau byr neu fideos i ddogfennu sut mae’r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn naturiol.<br>Dangos gwerth y mentoriaid ac addasu’r dull os oes angen.<br><br>Trefnu sesiynau arsylwi/cyfnewid rhwng athrawon. Caniatáu staff i wylio arfer da o ran hyrwyddo’r Gymraeg yn anffurfiol a chymdeithasol mewn dosbarthiadau eraill. Codi safonau, rhannu dulliau effeithiol a meithrin dull cyson ar draws y tîm staff.<br><br>Arolwg byr rheolaidd o athrawon am iaith hamdden a chymdeithasol.<br><br>Monitro cynnydd a nodi meysydd i’w datblygu’n fwy strategol.<br>Defnyddio system werthuso weledol mewn dosbarthiadau (e.e. map thermomedr defnydd iaith).<br><br>Cofnodi'n weledol sut mae disgyblion yn teimlo am |

| | | |
|---|---|---|
| Meithrin balchder, cydweithio a mwynhad wrth hyrwyddo'r Gymraeg. Gwerthuso trwy holiadur staff tymhorol.<br><br>Casglu adborth i lywio gwelliannau a chryfhau'r dull gweithredu.<br><br>Sicrhau bod y strategaeth yn esblygu'n barhaus ac yn addas i'r cyd-destun. Crybwyll "Cymraeg yn 1af" mewn nosweithiau rhieni ym mis Medi.<br><br>Cyflwyno'r fenter yn fyr i rieni ar ddechrau'r flwyddyn.<br><br>Creu partneriaeth gref gyda theuluoedd a chodi ymwybyddiaeth. Creu Criw Cymraeg cryf gyda statws uchel.<br><br>Penodi disgyblion fel hyrwyddwyr iaith gyda siacedi melyn ac ystod o gyfrifoldebau.<br><br>Modelau rôl cadarnhaol sy'n annog a chefnogi defnydd gan gyfoedion. Cwlwm Rhieni Tymor yr Hydref – canolbwyntio ar Gymreictod.<br><br>Trefnu gweithgareddau ar y cyd gyda rhieni sy'n dathlu diwylliant a'r iaith.<br><br>Atgyfnerthu cysylltiadau cartref ysgol a hyrwyddo balchder yn y Gymraeg. | Cynnal gweithdai iaith, prosiectau ar y cyd neu sesiynau canu gyda'r disgyblion hŷn.<br><br>Atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod cyfnodau pontio.<br><br>Defnyddio tystiolaeth dysgu i fonitro defnydd y Gymraeg.<br>Casglu clipiau sain/fideo, llyfrau gwaith neu arsylwadau i asesu cynnydd ieithyddol.<br><br>Cynnig darlun realistig o effaith y strategaethau ar ddatblygiad ieithyddol disgyblion.<br>Cynnal Wythnos Cymreictod ar y cyd gydag Ysgol Kitchener.<br><br>Ffocysu ar ddiwylliant, cerddoriaeth, celf, chwaraeon a bwyd Cymreig gydag ymgysylltiad cymunedol.<br>Codi ymwybyddiaeth ddiwylliannol a dathlu hunaniaeth genedlaethol mewn ffordd ryngweithiol a llawen.<br><br>Creu arddangosfa Cymraeg yn 1af. Creu arddangosfa weledol o dargedau, llwyddiannau, geiriau'r wythnos a gweithgarwch Cymraeg. | ddefnyddio'r Gymraeg, gyda lliwiau neu symbolau syml. |

| | | |
|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 4 Lles, Cynhwysiant ac ADY** | Ydyn ni'n sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn diwallu anghenion pob disgybl ac yn cefnogi addysg gynhwysol? | |
| **Cerrig milltir mis Rhagfyr** | **Cerrig milltir mis Mawrth** | **Cerrig milltir mis Gorffennaf** |
| Cefnogi Ymarfer Cynhwysol ac Anghenion Dysgwyr.<br><br>Creu a gweithredu fframwaith hunan-fyfyrio cynhwysol.Bydd staff yn defnyddio offeryn hunan-fyfyrio i asesu natur gynhwysol eu harferion dosbarth, gan nodi meysydd cryfder a meysydd ar gyfer datblygiad pellach.<br><br>Defnyddio Modelau i asesu'r amgylchedd dysgu. Dadansoddi elfennau corfforol, strwythurol a rhyngweithiol y dosbarth i sicrhau eu bod yn hwyluso mynediad, cyfranogiad a pherthnasedd i bob dysgwr.<br><br>Cwblhau'r daflen sgorio cynhwysiant Dosbarth. Staff i gadw cofnod ffurfiol o'u hasesiadau ac i'w defnyddio fel gwaelodlin ar gyfer monitro gwelliannau.<br><br>Defnyddio cwestiynau myfyriol i greu cynllun gweithredu. Dylunio camau pendant i wella arfer cynhwysol drwy ddadansoddi ymatebion hunan-fyfyrio. | Ymhelaethu ac Asesu Cynnydd.Adolygu a diweddaru'r daflen sgorio cynhwysiant. Monitro cynnydd ers Rhagfyr drwy ailasesu'r amgylchedd dysgu.<br><br>Casglu adborth gan ddisgyblion a theuluoedd am eu profiadau. Defnyddio ffurflenni a chyfweliadau i lywio newidiadau ymarferol.<br><br>Rhannu arferion gorau o'r rhaglen AET. Cynnal sesiynau mewnol lle mae staff yn rhannu newidiadau a wnaed i'w hymarfer.<br><br>Adroddiad interim gan y Pencampwr Awtistiaeth. Nodi camau gweithredu a'r effaith hyd yma, gan gynnwys argymhellion ar gyfer ail hanner y flwyddyn.<br><br>Cynnal sesiwn fewnol ar ganlyniadau Awdit Treganna. Staff yn trafod y canfyddiadau ac yn cynnig camau gweithredu cydweithredol.<br><br>Monitro defnydd o'r Google Site dysgu | Crynhoi, Gwerthuso a Golygu.<br>Cynnal hunanarfarnu ysgol gyfan ar ymarfer cynhwysol. Adolygiad ffurfiol o'r cynnydd a wnaed drwy'r flwyddyn.<br><br>Ail-asesu'r graddfa sgorio dosbarthiadau. Dangos gwelliant parhaus drwy dystiolaeth mesuradwy o newid.<br><br>Adroddiad terfynol gan y Pencampwr Dysgu Awtistiaeth. Dangos sut mae arferion wedi newid ac argymell blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.<br><br>Cyflwyno canfyddiadau Awdit Tlodi i'r Clwstwr. Rhannu ymarferion llwyddiannus a strategaethau cefnogol gyda chyd-ysgolion.<br><br>Adnewyddu cynnwys y Google Site gyda gwybodaeth wedi'i diweddaru. Sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn ddefnyddiol i staff.<br><br>Casglu a dadansoddi adborth gan rieni ar effaith y gweithdy "Y Nyth". Asesu effaith y sesiynau a llunio targedau ar gyfer datblygu pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithredu'r rhaglen DPP AET ar gyfer dealltwriaeth o awtistiaeth. Cyflwyno hyfforddiant i'r holl staff gan ddefnyddio modiwlau AET.<br><br>Penodi Pencampwr Dysgu Awtistiaeth. Cynnig arweinyddiaeth fewnol i hyrwyddo arferion addysgol sy'n gefnogol i ddisgyblion awtistig.<br><br>Trefnu gweithdy "Y Nyth" i rieni. Cynnig strategaethau ASD i rieni trwy arweiniad gan arbenigwr Elen Derrick.<br><br>Paratoi ar gyfer Awdit Tlodi Clwstwr (Awdit Treganna). Dechrau casglu data ar rwystrau a phrofiadau disgyblion mewn tlodi.<br><br>Cynllunio gweithgarwch dysgu proffesiynol ar-lein, Cychwyn ar greu Google Site sy'n cynnwys adnoddau dysgu proffesiynol ar gyfer staff.<br><br>Trefnu Taith Dysgu gyda Lisa Sarracini ar gyfer mis Hydref. | proffesiynol. Cwblhau a dadansoddi arolwg i asesu defnyddioldeb ac effaith yr adnodd digidol.<br><br>Gwerthuso'r hyfforddiant MeLSA a'i effaith. Casglu ymatebion staff ar newidiadau i'w dealltwriaeth a'u harferion addysgu.<br><br>Rhoi cynllun gweithredu unigol i staff ar sail myfyrio a chynnydd. Dangos ymrwymiad i ddatblygiad personol wedi'i deilwra.<br><br>Datblygu fframwaith monitro cynhwysiant ysgol gyfan. Adnabod dangosyddion allweddol i fesur lwyddiant cynhwysiant.<br><br>Cydweithio gyda staff ar gynllun pontio i ddisgyblion ag ALN. Sicrhau bod dulliau cynhwysol yn cael eu cynnal wrth bontio rhwng cyfnodau. | Trefnu ail daith ddysgu gyda Lisa Sarracini. Dangos cynnydd a derbyn adborth ar gamau gweithredu.<br><br>Gwerthuso effaith y rhaglen MeLSA ar allu staff i gefnogi dysgwyr: Casglu tystiolaeth achos o lwyddiant a pharatoi ar gyfer cam nesaf.<br><br>Trefnu Diwrnod Gwerthuso Cynhwysiant. Gwahodd rhanddeiliaid i ddathlu llwyddiannau a cyfrannu at adnewyddu gweledigaeth ysgol gynhwysol.<br><br>Crynhoi'r data cynhwysiant i greu Adroddiad Blynyddol i'r Llywodraethwyr. Rhannu llwyddiannau ac argymhellion strategol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 5 Asesu, Addysgu a Dysgu** | I ba raddau rydym yn cefnogi staff i ddatblygu dealltwriaeth glir o gynnydd ym mhob agwedd ar ddysgu disgyblion? |

| | | |
|---|---|---|
| **Cerrig milltir mis Rhagfyr** | **Cerrig milltir mis Mawrth** | **Cerrig milltir mis Gorffennaf** |

| | | |
|---|---|---|
| Ffocws ar osod sylfeini a chydweddu disgwyliadau asesu.<br>Disgyblion i osod targedau unigol ar y Platfform Cynnydd (Medi).<br>Cychwyn blwyddyn gyda phwyslais ar hunanymwybyddiaeth a llais y dysgwr.<br><br>Adolygu polisi marcio'r ysgol, cyflwyno marcio "Cau'r Bwlch" a "Gwerthuso Gwerthfawr" (Medi)<br><br>Cydweithio ar brosiect Cynnydd CLIP – Sesiwn 1 (Medi)<br>Datblygu dulliau cydweithredol gyda chyd-safoni rhwng ysgolion yn y clwstwr.<br><br>Cyflwyno Mapiau Cynnydd ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd i staff (Medi 1).<br>Sicrhau dealltwriaeth glir o ddisgwyliadau camau cynnydd Cwricwlwm i Gymru.<br><br>Staff i ddefnyddio mapiau cynnydd a dechrau llenwi'r daenlen asesu (Hydref 1)<br>Dechrau cofnodi lleoliad y dysgwr mewn ffordd systematig a chyson.<br><br>Sesiwn cyd-safoni Ysgrifennu ar draws yr ysgol (Hydref 1)<br>Creu cysondeb mewn dealltwriaeth o lefelau llythrennedd a meini prawf ansawdd.<br><br>Sesiwn ciplun cynnydd – arsylwadau byr a | Ffocws ar ddadansoddi data, mireinio targedau a pharatoi ar gyfer profion.<br><br>Disgyblion i osod targedau newydd ar y Platfform Cynnydd (Ionawr).<br>Myfyrio ar ddata'r hydref a gosod amcanion cliriach ar gyfer tymor newydd.<br><br>Sesiwn cyd-safoni Ysgrifennu (Gwanwyn 1)<br>Parhau i safoni dealltwriaeth lefelau trwy gymharu samplau a thrafodaeth broffesiynol.<br><br>Profion Cenedlaethol a pharatoi drwy asesiadau wedi'u targedu (Gwanwyn 1)<br>Casglu data meintiol i ategu tystiolaeth ffurfiannol ac anffurfiol.<br><br>Ciplun Cynnydd, sesiwn adolygu gan staff a chynllunio ymyriadau tymor byr (Gwanwyn 2)<br>Darganfod unrhyw fylchau neu newidiadau mewn cynnydd a gweithredu'n brydlon.<br><br>Cyfarfodydd dysgu personol gyda disgyblion.<br>Staff yn trafod cynnydd un i un gyda disgyblion yn seiliedig ar | Disgyblion i ddiweddaru targedau terfynol ar y Platfform Cynnydd (Mai).<br>Adlewyrchu ar gyflawniadau ac adnabod cryfderau ar ddiwedd y flwyddyn.<br><br>Sesiwn cyd-safoni Llafar ar draws yr ysgol (Haf 1)<br>Datblygu dealltwriaeth o ddatblygiad llafar drwy drafodaeth samplau a dulliau asesu.<br><br>Profion Cenedlaethol – casglu a dadansoddi data ffurfiol (Haf 2)<br>Defnyddio canlyniadau ar gyfer cynllunio pontio a chryfhau gwersi ar gyfer y flwyddyn ganlynol.<br><br>Adolygiad Cynnydd Blynyddol gan y tîm arweinyddiaeth.<br>Trafod tueddiadau, grwpiau penodol o ddysgwyr, a gwneud argymhellion ar gyfer y Cynllun Gwella Ysgol nesaf.<br><br>Dathlu cynnydd disgyblion gyda thystysgrifau cynnydd personol.<br>Atgyfnerthu agwedd gadarnhaol tuag at waith caled a dysgu parhaus.<br><br>Adolygu a gwerthuso polisi marcio'r ysgol, monitro effaith marcio "Cau'r Bwlch" a "Gwerthuso Gwerthfawr", penderfynu ar y camau nesaf. (Mehefin). |

| | | |
|---|---|---|
| thystiolaeth dysgu (Hydref 2)<br>Cipolwg ar gynnydd i adolygu ymyriadau neu gefnogaeth bellach.<br><br>Staff i ddiweddaru'r daenlen asesu gan ddefnyddio data ac arsylwadau diweddar (Hydref 2)<br>Adlewyrchu cynnydd a chefnogi cynllunio addysgu wedi'i dargedu.<br><br>Disgyblion i ddiweddaru'r Platfform Cynnydd a myfyrio ar eu taith hyd yn hyn (Hydref 2).<br>Annog ymdeimlad o berchnogaeth dros gynnydd a'r camau nesaf. | dystiolaeth o'r ciplun a'r Platfform.<br><br>Adolygu a gwerthuso polisi marcio'r ysgol, monitro effaith marcio "Cau'r Bwlch" a "Gwerthuso Gwerthfawr" (Chwefror) | |